# CLAIRE THOMAS
# CLWB NOFIO PONTYPRIDD

Mae Claire yn wirfoddolwr gyda Chlwb Nofio Pontypridd ac wedi cyflawni sawl rôl wahanol. Claire yw Rheolwr y Tîm, sy'n gyfrifol am drefnu'r nofwyr mewn galâu nofio. Mae Claire hefyd yn Swyddog Lles ac yn hyfforddwr achlysurol, sy'n trefnu'r hyfforddwyr eraill pan nad yw'r Prif Hyfforddwr yn bresennol. Mae hi'n caffael cit y clwb ar gyfer nofwyr, yn ymateb i ymholiadau gan aelodau newydd er mwyn trefnu treialon, ac yn cysylltu â'r holl hyfforddwyr er mwyn trafod cynnydd y nofwyr. Mae'r clwb yn dibynnu'n fawr arni hi (a'i gŵr!).

Dechreuodd Claire wirfoddoli ar ôl i'w phlant ymuno â'r clwb. Er eu bod nhw'n nofio i glybiau eraill erbyn hyn, mae hi wedi parhau i wirfoddoli gyda Chlwb Nofio Pontypridd. Mae'r clwb yn ddiolchgar iawn iddi am ei hamser a'i hymroddiad ac maen nhw'n effro iawn i ba mor heriol yw cyflawni'r holl  waith gwirfoddoli, wrth gynnal ei bywyd teulu a gweithio'n llawn amser yn athrawes.



Chwaraeon RhCT
Sport RCT

# GWIRFODDOLWR Y MIS

## RHAGFYR 2023